


Cyngor Gwynedd

Cynllun Cyflawni Lleol F5



Tudalen Gynnwys:

1	Cyflwyniad a Throsolwg
2	Cydlyniant Lleol a chyflwyniad
3	Y Ddarpariaeth Bresennol
4	Dadansoddiad a Grŵp Targed
5	Beth fydd y prosiect yn ei gyflwyno?
6	Fframwaith Rhanbarthol
7	Allbynnau a Chanlyniadau
8	Cydweddu a Chostau
9	Atodiad A - E

Enw	Sharon Williams (Rheolwr Ymgysylltiad Ieuenctid)
Sefydliad	Cyngor Gwynedd Council
Cyfeiriad	Swyddfeydd y Cyngor Stryd y Jêl Caernarfon Gwynedd
Cod post	LL55 1SH
Rhif ffôn	01286 679296
E-bost	Sharonwilliams@gwynedd.gov.uk

1 Cyflwyniad:

Bydd y ddogfen hon yn amlinellu strwythur y prosiect AD-TRAC yng Ngwynedd. Dosberthir y dogfennau i'r corff arweiniol, Grŵp Llandrillo Menai, partneriaid prosiect, AD-TRAC / YEPP a grŵp rheoli Cyflogadwyedd ac uwch swyddogion. Ni fydd y ddogfen hon yn cael ei rhannu gydag unrhyw sefydliadau nag unigolion a allai ddod yn gontractwyr caffaeledig o fewn cyflwyniad y prosiect.

Yn gyffredinol, cyfrifoldeb corfforaethol yr adran Economi yw'r prosiect yng Ngwynedd. Y Rheolwr Ymgysylltu, fydd y swyddog yn gyfrifol am ddatblygu'r prosiect, ynghyd ag aelodau o'r grŵp rheoli YEPP.

Trosolwg o'r Prosiect Rhanbarthol:

Prosiect Strategol Rhanbarthol yw AD-TRAC 16-24, a arweinir gan Grŵp Llandrillo Menai. Datblygwyd y prosiect gan grŵp datblygu rhanbarthol sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe awdurdod lleol, dau Goleg AB, Gyrfa Cymru, darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith, y trydydd sector a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC).

Bydd y prosiect yn cyflawni yn erbyn Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc yr ESF, blaenoriaeth 3 - Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 mlwydd oedd sy'n NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

Bydd AD-TRAC 16-24 yn darparu dull partneriaeth aml-asiantaeth i gefnogi ymgysylltiad pobl ifanc 16-24 mlwydd oed sy'n NEET i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yr amcan yw galluogi pobl ifanc bregus i gyflawni eu llawn botensial dysgu a'u llawn botensial economaidd drwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol, dwys ar gyfer unigolion i sicrhau fod ganddynt y sgiliau a'r hyder i fynychu addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac i leihau'r nifer o bobl ifanc yng ngogledd Cymru sy'n NEET.

2 Cydlyniad Lleol a Chyflwyniad:


Grŵp rheoli strategol YEPF yr awdurdod lleol yw'r grŵp llywio i ddatblygu'r prosiect. Bydd y gwaith o gyflwyno'r prosiect yn cael ei atgyfnerthu gan chwe elfen allweddol yr YEPF. Mae aelodaeth yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol a phartneriaid strategol allweddol. (Gweler Atodiad A). Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2016-17 yn adnabod y Prosiect Mynediad i Waith fel blaenoriaeth i'r awdurdod, gydag atebolrwydd i'r Panel Economaidd Strategol. Mae TRAC 11-24 yn un o dair ymyrraeth allweddol, ynghyd ag OPUS a C4W sydd yn ffurfio'r Prosiect Mynediad i Waith i wella mynediad i gyflogaeth ac yn cael gwared â rhwystrau i drigolion Gwynedd. Bydd cynllun gweithredu a deilliannau AD-TRAC yn cael eu monitro gan Grŵp Rheoli YEPF yn ogystal â'r Grŵp Cyflogaeth Strategol a byddant yn adrodd i'r Panel Economaidd. (Gweler y tabl cyfeirio isod).

Bydd AD-TRAC 16-24 yn cael ei reoli'n gyffredinol gan y Rheolwr Ymgysylltu a'r grŵp rheoli YEPF. Mae Cylch Gorchwyl wedi cael ei greu. Bydd gan y prosiect swyddog cyllid a monitro AD-TRAC a bydd yn adrodd yn chwarterol i'r grŵp rheoli YEPF yn ogystal â'r grŵp prosiect Cyflogadwyedd.

Y Rheolwr Ymgysylltu fydd yn rheoli pob swydd yn ddyddiol, a bydd wedi'i leoli yn yr adran Economi a Chymuned wedi'i gefnogi gan y tîm cyflwyno arfaethedig newydd / paru staff o ran cyflwyno, cyllid a monitro. Gweler Atodiad B am strwythur cyflwyno arfaethedig AD-TRAC.

Atebolrwydd o fewn yr Awdurdod Lleol a chysylltiadau gyda Phrosiectau ESF eraill:

Mae'r model dilynol wedi cael ei weithredu yn yr awdurdod lleol i sicrhau llinellau clir o atebolrwydd ar gyfer yr holl brosiectau ESF a chysylltiadau gyda grwpiau strategol eraill megis yr YEPF. Mae'r panel yn cyfarfod bob chwarter. Mae cylch gorchwyl ar gyfer y panel wedi cael ei ddatblygu. Mae Atodiad A yn amlinellu'r strwythur llywodraethu cyffredinol yn yr awdurdod lleol.



Bydd Rheoli YEPF/ AD-TRAC yn:

- Cymeradwyo pob prif gynllun ac adnoddau
- Awdurdodi unrhyw wyriad sydd yn fwy neu yn ddisgwyliedig i fod yn fwy
- Monitro cynnydd
- Cymeradwyo cyflawniad pob cam ac awdurdodi dechrau'r cam nesaf
- Cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid eraill os byddai angen.

3 Y Ddarpariaeth Bresennol

Mae Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar hyn o bryd yn cael cynnig amrediad o gefnogaeth ac ymyraethau drwy ddarpariaeth prif lif a ariennir gan y prosiect trwy gyfrwng darparwyr statudol a / neu drydydd sector yng Ngwynedd:

1. Darpariaeth statudol Gyrfa Cymru ar gyfer Haen 3 a chleientiaid ôl 18-24.
2. Gwasanaeth Ieuencid - yr arian grant ychwanegol ar gyfer Clybiau Swyddi.
3. Darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc digartref - gan gynnwys Darpariaeth Rhiantu drwy'r Loteri Fawr.
4. Rhaglen profiad gwaith wedi'i thargedu drwy brosiect Symud Ymlaen ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc o fewn y System Cyfiawnder Ieuencid. Mae gan Gwynedd gyfanswm o 12 lleoliad o fewn un flwyddyn galendr.
5. Darpariaeth Ymgysylltu a Hyfforddeiaeth drwy ddarpariaeth ddysgu yn seiliedig ar waith. Grŵp Llandrillo Menai yw'r unig brif ddarparwr.
6. Darpariaeth Cymunedau'n Gyntaf drwy'r awdurdod lleol.

Bylchau yng nghefnogaeth a darpariaeth bresennol:

Fodd bynnag, yn sgil ymarfer ymgynghori/mapio gan YEPF (Mehefin 2016) a gynhaliwyd gyda darparwyr a phartneriaid lleol gwelwyd bod **cefnogaeth ac ymyraethau ychwanegol yn hanfodol ond ddim ar gael i garfan sylweddol o bobl ifanc y byddai AD-TRAC yn ei dargedu.** Mewn rhai achosion, bydd gan y person ifanc ymgynghorydd personol/gweithiwr cefnogol yn gysylltiedig iddynt (e.e. LAC, Cyfiawnder Ieuencid). Fodd bynnag, canolbwynt y gwaith yw cyflawni deilliannau statudol ac **nid ail-ymgysylltu'r person ifanc i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.** Er eu bod yn elwa o'r mentrau uchod, maent angen mwy o gefnogaeth bwrpasol un i un oherwydd natur y rhwystrau y maent yn eu profi drwy eu profiadau bywyd anhrefnus, a'u problemau emosiynol ac iechyd meddwl. Mae bylchau hefyd mewn darpariaeth allgymorth yng Ngwynedd wedi i brosiect Gyrfa Cymru, 'Cadw mewn Cysylltiad' ddod i ben.

4 Dadansoddi Lleol a Grŵp Targed:

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) - mae'r prosiect wedi cymryd sylw o drosolwg polisi NEETS fel y'i datblygwyd gan dîm YEPF Llywodraeth Cymru. Mae'r YEPF yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu'r systemau cywir, y ddarpariaeth gywir a'r gefnogaeth gywir. Mae AD-TRAC 16-24 yn cefnogi bwriadau'r fframwaith am ei fod yn darparu awdurdodau lleol â'r cyfle i ddatblygu'r systemau mwyaf addas, y tu allan i gefnogaeth a darpariaeth statudol. Bydd y prosiect yn galluogi'r awdurdod lleol i gyflwyno cefnogaeth / darpariaeth ychwanegol i bobl ifanc 16-24, y grŵp mwyaf anodd i'w helpu gan fod ganddynt nifer o rwystrau ac am nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth a hyfforddiant. Bydd hyn yn derbyn sylw drwy wasanaethau "Cadw mewn Cysylltiad" effeithiol a chydweithio o fewn yr awdurdod lleol, gan gysylltu gyda phartneriaid allweddol.

Er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sydd yn NEET ymhellach, bydd AD-TRAC 16-24 yn:

- Targedu pobl ifanc 16-24 sy'n syrthio i'r categori NEET, sydd ddim yn barod / gallu ymgysylltu mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Haen 2)
- Targedu pobl ifanc 16 – 24 nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau prif lif drwy waith allgymorth. (Haen 1)
- Targedu pobl ifanc 16 – 24 sy'n adnabyddus i Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith sy'n economaidd anweithgar, fodd bynnag bydd hyn yn ychwanegol i wasanaethau prif lif. (Haen 3)
- Datblygu strategaeth allgymorth "Cadw mewn Cysylltiad" i dargedu'r grŵp o bobl ifanc "cuddiedig" sy'n NEET.

Mae dadansoddiad diweddar (atodiad C) o bobl ifanc sy'n NEET yng Ngwynedd wedi adnabod fod ganddynt amrediad o fwy nag un rhwystr a ffactorau sydd yn eu hatal rhag mynychu addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys hyder isel, dim hunan barch, diffyg cymhellant a chefnogaeth rhiant, problemau iechyd meddwl a llesiant, diffyg sgiliau bywyd a ffordd o fyw sy'n gyffredinol anhrefnus. Mae hyn yn thema gyffredin ar draws yr holl grwpiau bregus a oedd wedi'u hadnabod. Byddem hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc 16-24 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae dadansoddiad o ddata Haen 2 yn dangos mai'r ADY mwyaf cyffredin yw dyslecisa/dyspracia/ADHD/Asperger's ac anawsterau dysgu canolig i isel.

Y grwpiau allweddol y bydd TRAC 16-24 yn darparu iddynt yw:

Grŵp	Grŵp Targed	Carfan Grŵp	Partner(iaid) Cyfeirio Allweddol	Amcangyfrif allbwn 3 blynedd
1	Rhai sy'n Gadael Gofal Plant mewn Gofal Plant Mewn Angen (targedu pobl ifanc yn gweithio gyda YJS ac sydd mewn gofal).	16-24 16-18 16-18	Tîm Gadael Gofal YJS Panel YEPP Ôl-16 Gwasanaethau Cymdeithasol	90
2	Haenau 1, 2, 3 - cleientiaid (amrediad o rwystrau gan gynnwys pobl ifanc yn y categori "trosiant"). Hefyd yn cynnwys y grŵp anhysbys	16-18	Data misol Gyrfa Cymru i EPC Panel YEPP Ôl-16 Ymgynghorydd cyswllt Betsi Cadwaladr	150 Bydd 17% o'r uchod yn anhysbys ac ni fyddant yn cael mynediad at unrhyw wasanaeth = 25 Bydd gan 30% ADY. Bydd 30% yn gyfeiriadau / gweithio gyda chleientiaid Haen 3 90 + dyddiau = 40
3	Iechyd Meddwl a Llesiant	16-24	Panel YEPP Ôl-16 Ymgynghorydd cyswllt Betsi Cadwaladr Ymgynghorydd cyswllt DWP	90. Mae'r targed uchod yn cyfeirio at bobl ifanc â'u prif rwystr/ffactor wedi'i gyflwyno fel iechyd meddwl a llesiant. Mae darpariaeth ar gyfer yr holl bobl ifanc eraill gyda meddwl iechyd a llesiant sydd ag amryw o rwystrau neu rwystrau ychwanegol wedi ei ychwanegu yn y rhifau yn grŵp 1, 2 a 4.
4	Hawl wyr Lwfans Ceisio Gwaith/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth - hawl wyr newydd hyd at 12 mis / grŵp cleient "trosiant"	18-24	Ymgynghorydd cyswllt DWP / JCP Panel YEPP Ôl-16	120 70% hawl wyr UC / JSA 0-39 wythnos. 20% Economaidd Anweithgar (Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) - Cyfeiriadau newydd i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o fewn y cyfnod asesiad. Gweithio gyda'r hawl wyr o dan y gyfundrefn UC. Targedu pobl ifanc sydd yn adnabyddus i fod ag ADY. 10% graddedigion
Cyfanswm Buddiolwyr i'w Targedu				450

O'r grŵp targed uchod o 450, byddem yn targedu'r grwpiau canlynol:

Grŵp Buddiolwr	Nifer a Rhesymeg
Nifer y cyfranogwyr sydd yn fenywaidd	247. Wedi dadansoddi data Haen 5 dros 12 mis a data cyfredol JSA a chytuno ar y 55% o gyfranogiad.
Nifer y cyfranogwyr sydd yn wrywaidd	203 - fel yr uchod. 45% o'r grŵp targed.
Nifer y cyfranogwyr sydd ag anabledd	20. Wedi defnyddio data blaenorol o brosiectau eraill a hefyd y cyfresi data lleol. Nid yw pob person ifanc yn rhannu gwybodaeth am ei anabledd. 5% o'r grŵp targed.
Nifer y cyfranogwyr sydd yn y grŵp Lleiafrifoedd Ethnig	20. Wedi defnyddio'r data a gyflwynwyd gan ddata ymchwil gwaelodlin Cydraddoldeb yr awdurdod lleol sy'n 4.5% o boblogaeth Gwynedd.
Nifer y cyfranogwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu	45. Data wedi'i gyflwyno gan Gweithredu dros Blant. 10% o'r grŵp targed.

Mae'r statws anhysbys yn cyfeirio at bobl ifanc sydd yn NEET ac wedi colli cyswllt â gwasanaethau prif lif; ar hyn o bryd nid oes darpariaeth, neu ddarpariaeth gyfyngedig, i dargedu'r grŵp carfan hwn. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth ar gael yn y data Haen misol yn ogystal â gwybodaeth drwy'r panel pobl ifanc ôl-16.

Bydd y prosiect hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr lleol i dargedu pobl ifanc sydd yn hysbys i fod wedi gadael darpariaeth statudol yn gynnar, ac adnabod pobl ifanc drwy'r panel ôl-16 YEPPF, ble bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliadau statudol a thrydydd sector a fydd o bosib yn meddu ar wybodaeth am bobl ifanc sy'n NEET. Byddem hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i weithredu'r prosiect yn llwyddiannus, yn benodol yr ymgynghorydd DWP a'r gefnogaeth/ddarpariaeth Iechyd Meddwl a Llesiant drwy Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Gweithio gyda Rhieni Ifanc/Unigol - byddem yn gweithio gyda phobl ifanc sydd yn rhieni ifanc os nad oes darpariaeth arall ar gael; fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gennym ddau brosiect yn targedu'r grŵp hwn yng Ngwynedd. Mae PACE yn un o'r prosiectau ar gael ar hyn o bryd ac mae gennym ddarpariaeth hefyd drwy sefydliad trydydd sector o Gronfa'r Loteri Fawr hyd at Hydref 2016. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn gweithio gyda chyfartaledd o 40 o bobl ifanc bob blwyddyn. Mae'r ddau bartner yn mynychu Panel Pobl Ifanc ôl-16 Gwynedd a bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos o ran yr angen a bylchau yn y ddarpariaeth. Ni fydd AD-TRAC yn dyblygu unrhyw ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngwynedd.


Darpariaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a Gweithio Gyda Betsi Cadwaladr:

Mae ffordd o fyw nad yw'n iach sy'n arwain at broblemau iechyd meddwl a llesiant yn ffactor cyffredinol i bobl ifanc yn y grŵp NEET. Rydym yn credu, drwy'r data a ddadansoddwyd, bod gan 25% o'r grŵp cyffredinol broblemau meddyliol a llesiant ond heb gael diagnosis amdanynt. Bydd AD-TRAC 16-24 Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â Betsi Cadwaladr i:

- Weithredu cefnogaeth ymyrraeth gynnar a darpariaeth a fydd yn hygyrch a heb edrych fel cyfeiriad ffurfiol. Mae gan rai pobl ifanc agwedd negyddol tuag at wasanaethau cefnogaeth iechyd.
- Annog pobl ifanc i fynychu cefnogaeth ychwanegol a chael mynediad at ddarpariaeth mewn rheoli tymer, cwnsela ymlyniad, problemau iechyd emosiynol, herio ffordd o fyw nad yw'n iach sydd yn effeithio ar eu llesiant, iechyd a llesiant rhywiol, cefnogaeth profedigaeth, cefnogaeth i ddelio gyda phroblemau iechyd meddwl teulu, rhoi cymorth i bobl ifanc deimlo'n dda am eu hunain, datblygu sgiliau gwydnwch.
- Cefnogi Ymgynghorwyr Ymgysylltu AD-TRAC i adnabod iechyd meddwl a llesiant person ifanc yn fuan.
- Sicrhau bod gan yr Ymgynghorwyr Ymgysylltu gysylltiadau cryfach i CAMHS a darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl oedolion yn ystod cyfnodau trosglwyddo allweddol.

Y Broses Gyfeirio:

Bydd y prosiect yn gweithredu'r model aml-asiantaeth a ganlyn ar gyfer cyfeiriadau i'r prosiect AD-TRAC yng Ngwynedd a bydd ganddo ffurflen gyfeirio gadarn a fydd yn adnabod yr holl ffactorau allweddol:



Panel Cyfeirio - Panel Pobl Ifanc ôl-16 fydd y prif gyfrwng ar gyfer cyfeirio i brosiect AD-TRAC. Mae'n grŵp aml-asiantaeth, diduedd sydd wedi'i sefydlu'n dda, ac sy'n cadw at y cylch gorchwyl lleol (gweler ynghlwm). Bydd y prosiect hefyd yn defnyddio'r data Haen 5 misol gan Gyfra Cymru ar gyfer y grŵp 16-18, sydd yn ddiuedd ac yn system ganolog a ddefnyddir drwy Gymru. Mae'r data Haen 5 ar hyn o bryd yn cael ei yrru i bob partner o fewn y panel ôl-16, gan adnabod y prif rwystrau i beidio ymgysylltu mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth, a bylchau yn swyddogaeth gweithwyr allweddol. DWP fydd y prif gyfeiriad hefyd ar gyfer y Grŵp 18-24 Lwfans Ceisio Gwaith/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac maent yn bartner allweddol yn y panel ôl-16.

5 Beth fydd y prosiect yn ei gyflawni?

Prif amcan y prosiect yw lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, mewn cyflogaeth nac mewn hyfforddiant yng Ngwynedd gan gynnig cefnogaeth aml-asiantaeth a rhaglen ddarpariaeth fydd yn:

- Eu cyrraedd
- Ymgysylltu a Chymell
- Canolbwyntio ar Gleientiaid
- Hyblyg ac wedi'i Deilwra o ran Fframwaith Darpariaeth
- Canolbwyntio ar drosglwyddiad a chynnydd
- Cael ei yrru gan weithio cydgysylltiedig partneriaid

Bydd cyflwyniad y prosiect yn cael ei atgyfnerthu gan elfennau allweddol Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPP) yr awdurdod lleol:

- Adnabod yn Gynnar - Bydd y prosiect yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i adnabod pobl ifanc 16-24 sydd yn NEET yng Ngwynedd. Un dull fydd y teclyn adnabod NEET ôl-16 rhanbarthol sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu gan y tîm Rheolaeth Rhanbarthol a'r Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu ar draws y rhanbarth. Bydd y prosiect hefyd yn defnyddio data misol Gyrfa Cymru, gwybodaeth a rannwyd gan bartneriaid allweddol drwy'r Protocol Rhannu Gwybodaeth a phanel aml-asiantaeth ôl-16 YEPP. Byddwn yn parhau i ddiweddar dadansoddiadau diweddar o grwpiau targed allweddol fel dull o adnabod angen ac ymyrraeth gynnar o fewn yr awdurdod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r dadansoddiad hwn wedi'n galluogi i adnabod ein grŵp buddiolwr targed allweddol. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl ifanc 16-18 penodol yr ydym wedi'u hadnabod, gyda'r nod o gael 'bachyn' cyn 18 ac atal cyfeiriad at wasanaethau oedolion a / neu gefnogi trosglwyddiad effeithiol i wasanaethau oedolion.
- Cefnogaeth a Broceriaeth - Bydd cefnogaeth Un i Un yn cael ei gynnig i bobl ifanc a sydd wedi'u hadnabod yn y grŵp targed gan dîm amlddisgyblaethol o dri Ymgynghorydd Ymgysylltu, un Gweithiwr Allgymorth a Mentor Cefnogol. Bydd canolbwynt yr ymyrraeth gefnogol drwy gynllun asesiad yn dibynnu ar y rhwystrau sydd wedi'u hadnabod a allai atal pobl ifanc rhag ymgysylltu mewn addysg/cyflogaeth neu hyfforddiant (e.e. Gadael gofal/iechyd meddwl a llesiant, trosglwyddiad i wasanaethau oedolion, ffordd o fyw, diffyg sgiliau cyflogaeth ac ati). Mae'r gwaith sydd ei angen i ymgysylltu'r bobl ifanc hyn yn defnyddio llawer o adnoddau a bydd AD-TRAC 16-24 yn darparu cefnogaeth ychwanegol drwy Ymgynghorwyr Ymgysylltu sydd ddim ar gael ar hyn o bryd. Bydd adnoddau hefyd yn cael eu dyrannu i'r ymgynghorwyr o ran eiriolaeth a chysylltu ar ran y grŵp targed. Byddai'r Ymgynghorwyr Ymgysylltu yn sicrhau bod pob person ifanc yn cael cynllun gweithredu ac allbynnau personol sydd yn gryno gan ganolbwyntio ar fapio llwybr o gwmpas hyfforddiant, profiad gwaith ac addysg. Bydd pob person ifanc hefyd yn cael y cyfle i gael cefnogaeth bwrpasol drwy'r ddarpariaeth leol well a fframwaith gwasanaeth cefnogol (gweler isod), er enghraifft mynychu sesiynau cwnsela ychwanegol, cymodi â theulu, gweithdai ar reoli tymer,

cymwysterau galwedigaethol, cyrsiau byr ac ati. Bydd y prosiect hefyd yn cyflogi Ymgynghorydd Ymgysylltu / Lleoliad a fydd yn creu lleoliadau gwaith.

- **Dull cyflwyno** - O'r holl waith ymchwil ar bobl ifanc sy'n NEET, gallwn ragdybio mai'r pwynt cychwynnol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc yn y categori NEET yw hanes negyddol / 'methiant'. Mae dull AD-TRAC yn canolbwyntio ar gleientiaid. Mae'n wasanaeth 1:1 dwys sydd yn cynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn ac wedi'i anelu at ddod o hyd i'w ffactorau cymhelliant unigryw. Yr amcan tymor hir yw creu sefyllfa 'dim NEET' parhaus ar gyfer y person ifanc. Mae'n amlwg o fewn y panelau ôl-16 bod gan y mwyafrif o fuddiolwyr AD-TRAC anghenion gwaelodol sydd angen mynd i'r afael â hwy cyn y gallant ymgysylltu'n realistig mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Mae gan fwyafrif y buddiolwyr gymysgedd o anghenion ac mae ganddynt ddiffyg sgiliau bywyd syml / arweiniad gan oedolion i gael at y gefnogaeth y maent eu hangen. Mae'n debygol y bydd staff AD-TRAC yn wynebu sefyllfa ble nad oes gan berson ifanc nodau realistig a/neu heb ddisgwyliadau o'i (g)allu i lwyddo. Mae yma hefyd gymysgedd o sinigiaeth, drwgdybio, gwybodaeth anghywir, dryswch, disgwyliadau gormodol o 'ddarpariaeth gefnogi'. I fynd i'r afael â'r anghenion hyn, mae angen cefnogi'r person ifanc drwy gyfres o rwystrau a deilliannau.

Bydd gan y prosiect dri cham o gefnogaeth ac ymyrraeth gan yr Ymgynghorwyr Ymgysylltu a'r Gweithiwr Allgymorth:

Cam 1: - cefnogaeth 1:1 ddwys. Dyma agwedd hanfodol y prosiect; mae hyn yn cyfeirio at y cam cychwynnol dwys ble bydd perthnasau/ffiniau'n cael eu sefydlu. Bydd hyd y gefnogaeth ddwys yn dibynnu ar anghenion y person ifanc. Bydd y cam dwys yn mynd i'r afael ag anghenion gwaelodol yr unigolyn cyn iddo allu ymgysylltu'n realistig ag Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Bydd gan y mwyafrif o bobl ifanc y gefnogaeth hon gan nad ydynt yn addas neu'n barod at sefyllfaoedd grŵp. Bydd y cyswllt gwaelodlin yn gyfartaledd o 2-3 cyswllt yr wythnos yn ystod cyfnodau dwys. Cyfartaledd y cyfnod amser yng Ngham 1 fydd naw mis.

Cam 2 – cefnogi er mwyn cael canlyniad. Mae'r cam hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at gefnogi pobl ifanc i gael canlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r Ymgynghorydd Cyflogaeth a Lleoliad, cyflogwyr lleol, sefydliadau trydydd sector ac amrywiaeth o bartneriaid allweddol. Bydd rhai o'r bobl ifanc yn llithro'n ôl i Gam 1.

Cam 3 - yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae hyn yn cyfeirio at y nifer uchel o waith eiriolaeth a chyswllt o fewn y ffrwd Sgiliau a Chyflogaeth - yn benodol lleoliadau cyflogadwyedd/gwirfoddol/cyrsiau . Bydd cyfartaledd y cyfnod monitro yn wythnosol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd i gyflogaeth/addysg/hyfforddiant. Bydd rhai o'r bobl ifanc yn llithro'n ôl i Gam 2.

Llwyth achosion - Bydd staff darparu AD-TRAC yn cael llwyth achosion misol gan y Rheolwr Ymgysylltu a bydd hyn yn cael ei fonitro drwy adolygiad achos unigol misol. Bydd y tri staff Ymgysylltu yn gweithio ar draws yr ardal awdurdod lleol sydd, yn ne Gwynedd, yn wledig iawn a bydd angen ystyried adnoddau o ran nifer y llwythi achos. Fodd bynnag, byddant yn gweithio gyda chyfartaledd o 50 llwyth achos y flwyddyn, cyfartaledd o 15 cyfranogwr y mis

a bydd pob sesiwn grŵp yn ychwanegol i hyn. Bydd y Gweithiwr Cefnogol yn gweithredu fel yr unig gefnogaeth o ran gofynion iechyd a diogelwch yn ogystal â chael llwyth achosion unigol. Bydd yr Ymgynghorydd Ymgysylltu Cyflogaeth yn canfasio ac yn trefnu lleoliadau ar gyfartaledd o dri diwrnod yr wythnos, wrth gefnogi a defnyddio'r ffrwd sgiliau a chyflogaeth am ddau ddiwrnod arall.

Swyddi arfaethedig i gael eu hariannu gan ESF

Rhif	Swydd Ddisgrifiad
1	Ymgynghorydd Ymgysylltu TRAC x 3
2	Mentor Cefnogol Ymgysylltu TRAC x 1
3	Ymgynghorydd Ymgysylltu a Lleoli x 1
4	Swyddog Cyllid a Monitro
5	Rheolwr Ymgysylltu AD-TRAC

Gweler y manylion yn atodiad D

- **Tracio a Deilliannau** - bydd gan y prosiect feini prawf adnabod a chymhwyster clir sydd wedi cysylltu i'r teclyn adnabod, gyda ffurflen gyfeirio safonol i'w defnyddio gan yr holl staff prosiect a phartneriaid/sefydliadau allweddol. Bydd hyn yn cael ei weithredu a'i fonitro drwy'r panel ôl-16 YEPF a'r Rheolwr Ymgysylltu. Bydd y tîm prosiect hefyd yn gyfrifol am ymgymryd ag asesiad manwl gyda grŵp targed i benderfynu a chytuno ar gefnogaeth a darpariaeth addas drwy'r swyddogaeth broceriaeth a'r fframwaith darparu. Bydd y prosiect hefyd yn monitro'r data Haen 5 misol gan Gyrfa Cymru, gan dargedu adnoddau yn Haen 2. Bydd y prosiect yn gweithio gyda Gyrfa Cymru yn ystod cyrchfannau blynyddol gan dargedu niferoedd y rhai "anhysbys" a'r bobl ifanc nad ydynt yn gallu cael at Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Bydd y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth agos â rheolwyr Canolfan Byd Gwaith o ran ymgysylltu â'r rhai 18-24 sy'n economaidd anweithredol. Bydd y grŵp rheoli AD-TRAC/YEPF yn adnabod deilliannau tracio penodol wedi'u cysylltu i ddata ar ddadansoddiad diweddar o anghenion a grwpiau targed allweddol o fewn yr awdurdod.
- **Darpariaeth Uwch a Gwasanaeth Cefnogol** - mae'r ymarfer mapio YEPF diweddar wedi adnabod bylchau penodol yn y gefnogaeth a'r ddarpariaeth ar draws y sir yn Haen 2 a'r angen am ragor o ddarpariaeth ddwyieithog sy'n hygyrch ac yn hyblyg. Bydd deilliannau'r mapio yn hysbysu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth fydd y prosiect hwn yn ei gaffael ar lefel ranbarthol a lleol i osgoi dyblygu. Bydd y ddarpariaeth uwch a'r gefnogaeth gefnogol ar ffurf broceriaeth 1-1 a sesiynau grŵp bach ble bo'n briodol. Bydd y ddarpariaeth uwch hon yn cynnig gwasanaeth i'r person ifanc sydd yn annibynnol ac yn ddiuedd o'r Ymgynghorwyr Ymgysylltu, wedi'i gaffael gan ddarparwyr addas. Bydd y ddarpariaeth uwch yn helpu pobl ifanc i ymgysylltu'n well mewn darpariaeth hyblyg a chefnogaeth, ac o ganlyniad bydd rhagor o bobl ifanc sydd yn NEET yn cael mynediad at ddarpariaeth leol ac felly'n cael cyflogaeth. Bydd bob person ifanc yn cael ei gyflwyno i amrediad o wasanaethau i ddewis ohonynt mewn trafodaeth â'r Ymgynghorwyr Ymgysylltu. Rydym wedi dyrannu 150k am dair blynedd ar gyfer y contractau caffaeledig. Ar hyn o bryd, nid yw hyn ar gael o fewn ein darpariaeth statudol/gwirfoddol. Fodd bynnag, bydd staff AD-TRAC yn rhagweithiol wrth

sicrhau mai darpariaeth leol gyfredol fydd y dewis cyntaf i gael ato cyn ystyried y ddarpariaeth uwch drwy'r fframwaith gaffael.

Themâu Allweddol Cefnogi a Darparu:

Byddwn yn canolbwyntio ar dargedu cefnogaeth a darpariaeth ymyrraeth gynnar o fewn llesiant iechyd emosiynol a meddwl. Bydd y dull seicolegol cadarnhaol yn cael ei weithredu gan y staff AD-TRAC, gan ganolbwyntio ar drosglwyddo i gyflogaeth a deilliannau cadarnhaol eraill. Gweler enghraifft o'r math o ddarpariaeth/gefnogaeth sydd ei hangen drwy fframwaith caffaeledig.

Byddwn yn edrych i gaffael a chyflwyno'r prif feysydd darparu a chefnogi a ganlyn:

Meysydd Allweddol y fframwaith:	Darpariaeth a Chefnogaeth	Darpariaeth a Chefnogaeth	Darpariaeth a Chefnogaeth	Darpariaeth a Chefnogaeth	Darpariaeth a Chefnogaeth
Sgiliau a Dysgu	Cerdyn CSCS	Iechyd a Diogelwch	Codi a Thrin	Mynediad i bynciau craidd TGAU	Hyfforddiant TG / hyfforddiant Digidol ar gyfer cyflogaeth ac ymgeisio am swyddi.
Darpariaeth a Chefnogaeth Arbenigol	Cefnogaeth Ymlyniad	Rheoli Tymer	Cyrsiau Rhiantu	CPT	Asesiadau Iaith a Lleferydd / Dyslecsia
Sgiliau Bywyd	Rhyngweithio Cymdeithasol	Cyllido	Rheoli Amser	Sgiliau Cyfweld	Ffurflenni Cais
Iechyd, Llesiant Meddwl a Llesiant	CPT	Rheoli Tymer	Cwmsela	Chwaraeon a Hamdden/Therapi Cerddoriaeth	Ymwybyddiaeth Ofalgar
Tai	Cefnogaeth cwnsela	Cyflafareddu	Sgiliau Byw'n Annibynnol	Gweithdai ar gofrestriaadu Landlord/polisi tai	Gweithdai gwydnwch
Gwledigrwydd/Cludiant	Cefnogaeth wrth	Adnoddau trafndiaeth	Cefnogaeth gyda phrawf	Cyrsiau Cymunedol a	Mentoriaid

	ddefnyddio cludiant cyhoeddus	ar gyfer hyfforddiant.	theori modur.	chwnsela	
Cyflogadwyedd	Lleoliadau gwaith	Cysgodi gwaith	Cefnogaeth mentora	Gweithdai Marchnad Lafur wedi'u Hachredu	Lwfans Lleoliad
† Arall	Rhwystrau i sicrhau cyflogaeth	Magu hunan-barch a hyder	Cefnogaeth gofal plant	Achrediadau mewn amrywiaeth o feysydd.	Cronfa Waredu / Rhwystrau ar gyfer amrediad o rwystrau

Mae dal angen i'r partneriaid rhanbarthol gyuno ar y fframwaith caffael. Bydd y ddarpariaeth yn gyfuniad o hyfforddiant sy'n achrededig a heb ei achredu gyda deilliannau clir o ran pobl ifanc yn ennill cymwysterau ac yn gwella hyder a hunan-barch ac felly'n gwella'u sgiliau a'u cyflogadwyedd. Rydym wedi dyrannu cyfanswm o 150k dros linell amser tair blynedd y prosiect. Mae'r prosiect yn amcangyfrif y bydd mwyafrif y costau'n codi o hyfforddiant pwrpasol a phecynnau cefnogaeth nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, a'r ffrwd gwaith cyflogadwyedd a lleoliadau gwaith. Pan fo prosiectau di-dâl yn bodoli, rydym wedi ymgynghori â hwy i sicrhau nad oes dyblygu.

Sgiliau a Chyflogadwyedd - un amcan yng nghynllun strategol 2015-2017 yr awdurdod lleol yr gwella mynediad at gyflogaeth i drigolion Gwynedd. Rydym yn bwriadu datblygu a darparu Modiwl Hyfforddi Cyflogadwyedd ymhellach a fydd yn achrededig. Bydd y modiwl yn cael ei ddarparu gan yr Ymgynghorwyr a/neu Ymgynghorwyr Cyflogaeth mewn amryw o leoliadau (canolfannau ieuencid, lleoliadau Canolfan Byd Gwaith, lleoliadau anffurfiol) a bydd yn galluogi'r bobl ifanc i ennill cydnabyddiaeth am ddatblygu sgiliau cyflogadwyaeth allweddol ac ennill sgil hanfodol. Bydd staff darparu AD-TRAC yn gyfrifol am yr elfen hon er mwyn sicrhau bod y cysondeb a'r ansawdd yn cael ei gyflawni ar draws yr ardal ddarparu leol. Bydd yn ateb y bwlch cyfredol yn nhermau sicrhau bod gennym raglen ddwyieithog a fydd yn cael ei gynnis a'i ddarparu yn lleol fel bo'r angen. Rydym yn credu y bydd y tîm yn gallu datblygu lleoliad cyflogadwyedd pwrpasol oherwydd natur eu perthynas gyda'r person ifanc fel y prif weithiwr allweddol / brocer. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw o fewn y tîm er mwyn sicrhau bod cyflogadwyedd / lleoliad yn cael ei ddarganfod. Bydd y rhaglen hon yn hyblyg ac, yn dibynnu ar y cyfranogwr, gellid ei ddarparu dros 4 i 16 wythnos a bydd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Iechyd a Diogelwch yn y gweithle
- Rhwystrau i sicrhau cyflogaeth
- Datgeliadau
- Hunan ymwybyddiaeth a Gwneud Penderfyniadau
- Sgiliau Rheoli Gyrfa
- Sgiliau Hanfodol
- Beth mae cyflogwyr eisiau?

- Gweithdy TG
- Sgiliau Chwilio am Waith
- Lleoliadau gwaith ffurfiol wedi'u trefnu gan AD-TRAC
- Cyfleoedd cysgodi gwaith
- Ymweliadau cyflogwr o fewn sectorau twf/recrwtio megis Iechyd a Gofal, Adeiladu, Sector Gwasanaeth, Peirianeg, sector Ynni.

